

**Cyfarfod Partneriaeth
Tyfu Canolbarth Cymru**
Ystafell 1, Canolfan Rheidol, Aberystwyth
Dydd Mawrth 16 Hydref 2018
18:00pm – 20.00pm

Yn bresennol

Rosemarie Harris (RH)	Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Cadeirydd)
Ellen Ap Gwynn (EAG)	Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (Is-gadeirydd)
David Powell (DP)	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys
Eifion Evans (EE)	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion
Yr Athro Robert Brown (RB)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Nia Williams (NW)	Cydbwyllgor Canolbarth Cymru
Carwyn Jones Evans (CJE)	CLILC
Nicola Thornton-Scott (NTS)	Grŵp Colegau NPTC
Arwyn Watkins OBE (ArW)	Hyfforddiant Cambrian
Jenni Thomas (JT)	Cyngor Sir Powys
Lisa Griffiths (LG)	Cyngor Sir Powys
Ann Watkin (AW)	Llywodraeth Cymru
Vanessa Naughton (VN)	Llywodraeth Cymru
Ann Elias (AE)	Cyngor Sir Ceredigion
Russell Hughes-Pickering (RHP)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyng. Peter Davies MBE (PD)	Undeb Amaethwyr Cymru
Ceri Stephens (CS)	Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth
Emma Wilde (EM)	Siambr y Canolbarth
Matt Morden (MM)	Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr
Dr. Rhodri Morgan (RM)	Prifysgol Aberystwyth
Rhian Hayward (RH)	Prifysgol Aberystwyth
Claire Miles (CM)	Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol y Canolbarth
Mike Shaw (MS)	Cyngor Sir Ceredigion
Gareth Jones (GJ)	Cyngor Sir Powys
Jane Lewis (JL)	RLSP
Y Cyng. Rhodri Evans (RE)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyng. Gareth Lloyd (GL)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyng. Myfanwy Alexander (MA)	Cyngor Sir Powys
Y Cyng. Martin Weale (MW)	Cyngor Sir Powys

Yn bresennol hefyd

Bob Perkins – AECOM

Gareth Brown – AECOM

Seren Jones – Cofnodydd – Cyngor Sir Ceredigion

<p>1.</p>	<p>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-</p> <ul style="list-style-type: none">• Y Cyng. Ioan Thomas – Cyngor Sir Gwynedd• Andrew Cornish - Coleg Sir Gâr• Steve Hughson – Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru• Rebecca Williams – Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad• Mark Dacey – Grŵp NPTC• Y Cyng. Martin Weale – Cyngor Sir Powys• Rob Holt – Llywodraeth Cymru• Terri Thomas - Llywodraeth Cymru• John Jones – Llywodraeth Cymru• Cllr. Dafydd Edwards - Cyngor Sir Ceredigion• Emyr Williams – Parc Cenedlaethol Eryri• Hywel Davies – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant• Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys• Gwawr Price - Llywodraeth Cymru• Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Hywel Dda• Doug Hughes - Hughes Architects• Paul Evans - Venture Automotive• Y Cyng. Rowland Rees-Evans – Cyngor Sir Ceredigion	
<p>2.</p>	<p>Cofnodion a champau gweithredu o gyfarfod diwethaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 13 Gorffennaf 2018</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir yn amodol ar y diwygiad canlynol:-</p> <p><u>Gweledigaeth</u></p> <p>Gofynnodd PD a yw'r gair 'dwyieithog' wedi'i gynnwys yn y datganiad o weledigaeth (fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru 13/07/2018)? Dywedodd RH y dylai hynny fod wedi</p>	

	<p>digwydd os oedd wedi'i gytuno yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnodd RH am ddiwygio'r Cofnodion er mwyn adlewyrchu'r ffaith y cytunwyd i wneud hynny.</p>	
3.	<p>Derbyn cyflwyniad ar ganfyddiadau AECOM a chopi drafft terfynol o'r 'Rhaglen Ymyriadau Ranbarthol Seiliedig ar Dystiolaeth'</p> <p>Mynychwyd cyfarfod y Bartneriaeth gan Bob Perkins a Gareth Brown o AECOM er mwyn rhoi cyflwyniad ar eu canfyddiadau a chopi drafft terfynol o'r 'Rhaglen Ymyriadau Ranbarthol Seiliedig ar Dystiolaeth'.</p> <p>Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi isod.</p> <p>Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y pwyntiau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd hyd yn hyn • Ymgynghoriadau a gwblhawyd • Themâu cyffredin • Gweledigaeth • Amcanion y Rhaglen <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sgiliau a'r Gweithlu ▪ Arloesi ▪ Busnes ▪ Digidol ▪ Trafnidiaeth ▪ Camau nesaf <p>Roedd cyfle i ofyn cwestiynau wedyn.</p> <p>Cytunwyd y byddai'n fanteisiol rhoi copi o'r cyflwyniad a drafft terfynol y Cynllun Economaidd Rhanbarthol i'r Aelodau fel y gallant eu hystyried ymhellach a rhoi adborth arnynt.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i AECOM am y cyflwyniad.</p>	
4.	<p>Derbyn diweddariad ar gynnig y Fargen Twf</p> <p>Cafwyd diweddariad gan David Powell (DP), Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys, ar gynnig arfaethedig y Fargen Twf. Dywedodd DP ei bod yn bwysig nodi mai bargaen twf bosibl yw hon ar hyn o bryd.</p> <p>Dywedodd DP fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r Arglwydd Bourne ac y bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal cyn bo hir.</p> <p>Dywedodd DP fod Cabinet Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion wedi cyfarfod yn anffurfiol i drafod rhai egwyddorion cyffredinol y gellir eu rhoi ar waith ledled y rhanbarth. Dywedodd DP ei bod yn fanteisiol bod dau Awdurdod Lleol yn rhan o'r fargen twf, ond bod angen cofio mai bargaen i'r rhanbarth yw hon ac y bydd yn hollbwysig ymgysylltu â'r sector</p>	

	<p>preifat.</p> <p>Dywedd DP fod 6 maes thematig yn cael eu cynnig sy'n gorgyffwrdd â'r meysydd yn y Cynllun Economaidd Rhanbarthol drafft. Bydd prosiectau gwahanol yn deillio o'r meysydd thematig hyn.</p> <p>Camau nesaf:-</p> <p>Ymgysylltu â'r sector preifat gan fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn chwilio am ragor o dystiolaeth i gefnogi'r cynigion.</p> <p>Cynhelir cyfarfod Cabinet ar y cyd anffurfiol arall ar 7 Tachwedd 2018 er mwyn cytuno ar drefniadau Llywodraethu.</p> <p>Dywedd EE ei bod yn hollbwysig sicrhau bod y fforwm priodol ar gael i ymgysylltu â'r sector preifat er mwyn sicrhau bod y sector hwnnw'n teimlo bod diben a gwerth iddo ymgysylltu. Dywedd EE y bydd Grŵp Strategaeth Economaidd yn cael ei sefydlu o dan arweiniad y sector preifat er mwyn dylanwadu ar waith y Cydbwyllgor.</p> <p>Cafwyd diweddariad gan AW ar y ddwy fargen ddinesig sydd ar waith ar hyn o bryd (y naill ar gyfer Caerdydd a'r llall ar gyfer Abertawe), a'r Fargen Twf arfaethedig ar gyfer gogledd Cymru. Dywedd ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng bargeinion dinesig a bargeinion twf ar sail pwyntiau gwerth unigryw'r rhanbarth.</p> <p>Dywedd AW fod gwaith AECOM yn hollbwysig gan y bydd yn gosod y cyd-destun er mwyn sicrhau bod y fargen twf yn datblygu yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Dywedd AW mai'r Awdurdodau Lleol a fydd yn gyfrifol am lywodraethu er mwyn derbyn y cyllid, ond y bydd hon yn fargen i'r rhanbarth cyfan.</p> <p>Dywedd LG fod ymweliad â'r Senedd wedi'i drefnu ar gyfer 31 Ionawr 2019, a fydd yn gyfle rhagorol i arddangos rhanbarth y Canolbarth. Dywedd RH ei bod yn deall y bydd Ysgrifennydd y Cabinet, Ken Skates, yn siarad yn y Senedd y diwrnod hwnnw.</p> <p>Cafwyd diweddariad llafar gan RH, Llywodraeth Cymru, ar ddatganiad llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet, Mark Drakeford y prynhawn hwn (16 Hydref 2018) ynglŷn â'r gwaith sy'n parhau ar ddyfodol heb gronfeydd strwythurol.</p>	
5.	<p>Ystyried ymateb Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, "Cymorth i Ffermwyr Cymru ar ôl Brexit"</p>	

Fe aeth Claire Miles (CM), Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol y Canolbarth, ati i wneud y cyflwyniad sydd wedi'i atodi yn ymwneud ag adborth ar ymgynghoriad 'Brexit a'n tir' Llywodraeth Cymru, sy'n cau ar 30 Hydref 2018, fel bod modd i'r Bartneriaeth lunio ymateb. Mae copi o'r cyflwyniad, sy'n cynnwys adroddiad ac ymateb drafft, wedi'i atodi isod.

Eglurodd CM ei bod yn bosibl bod yr adroddiad eglurhaol a'r ymateb drafft eisoes wedi'u dosbarthu i Aelodau, a bod rhai sylwadau eisoes wedi'u derbyn a'u hystyried.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y pwyntiau canlynol:-

- Cefndir i'r Ymgynghoriad
- Y prif newidiadau arfaethedig
 - Dim elfen o daliadau uniongyrchol i ffermwyr – caiff yr elfen hon ei dileu'n raddol
 - Bydd y cynlluniau newydd ar gael i dirfeddianwyr o bob math.
- Adborth hyd yn hyn a Chwestiynau i'w gofyn
- Cyfnod pontio arfaethedig Llywodraeth Cymru (newid o 2020 i'w gwblhau erbyn 2025)

Roedd cyfle i ofyn cwestiynau wedyn.

Pwyntiau allweddol:-

- Mae adborth wedi dangos bod angen rhoi cap ar daliadau.
- Dywedodd CJE ei fod wedi helpu i ddrafftio ymateb CLILC i'r ymgynghoriad hwn. Dywedodd CJE fod Cymru un cam ar y blaen o safbwynt argymhellion sy'n cael eu cynnig fel rhan o'r cyfnod pontio. Nododd CJE ei bod yn anodd ymateb pan nad ydym yn gwybod rhychwant Brexit ar hyn o bryd na'r sectorau a fydd yn gweld yr effaith fwyaf. Dywedodd nad yw'r argymhellion yn cynnwys digon o fanylion a'n bod ond yn gallu cyfeirio at egwyddorion. Dywedodd CJE y bydd ymateb y Bartneriaeth yn cael ei ystyried gan Fforwm Gwledig CLILC yr wythnos nesaf ac y bydd yn ymateb cadarn a chynhwysfawr.
- Dywedodd RE y byddai'n hoffi diwygio'r frawddeg sy'n nodi bod "y Bartneriaeth yn croesawu'r egwyddorion sylfaenol" yn yr ymateb drafft gan nad yw'n credu bod y Bartneriaeth yn eu croesawu. Cytunodd Aelodau'r Bartneriaeth â hyn.
- Hefyd, dywedodd RE y byddai dileu taliadau uniongyrchol yn niweidio'r iaith Gymraeg.

	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd bod angen cyfeirio mwy at ffermwyr yn hytrach na 'rheolwyr tir'. • Nid oes unrhyw gyfeiriad at gynnyrch gwledig na chynhyrchu bwyd. • Ni ddylai'r cyllid fod ar gael i dirfeddianwyr nad ydynt yn cynhyrchu bwyd. • Dywedodd MA nad yw'r mater hwn yn ymwneud â chynhyrchwyr bwyd yn unig, ond cynhyrchwyr bwyd preswyl. <p>Diolchodd y Cadeirydd i CM am ei chyflwyniad heddiw a gofynnodd iddi gysylltu â CJE o CLILC er mwyn croesgyfeirio'r ddau ymateb.</p> <p>Bydd drafft terfynol yn cael ei rannu ag Aelodau cyn bo hir ar gymeradwyaeth.</p>	
<p>6.</p>	<p>Derbyn yr Adroddiad Diweddarau ar Ymgysylltu Rhanbarthol – Chwarter 3, 2018</p>	
	<p>Cafwyd diweddariad gan Mike Shaw (MS) ar Weithgarwch Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Chwarter 3. Mae copïau o'r adroddiadau diweddarau wedi'i hatodi isod.</p> <p><u>Diweddariad TRIP</u></p> <p>Dywedodd MS fod llythyr wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo fersiwn terfynol Cynllun Adfywio Rhanbarthol Canolbarth Cymru.</p> <p>Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar symud y prosiectau ymlaen. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld â'r prosiectau ym Mhowys a Cheredigion gyda swyddogion Cyngor, ac mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r prosiectau hyn.</p> <p>Mae'r sefyllfa ranbarthol yn cael ei monitro a'i rheoli gan grŵp swyddogion Tyfu Canolbarth Cymru, a byddant yn adrodd i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn rheolaidd.</p> <p>Gofynnodd MS am gytundeb y Bartneriaeth i Grŵp Swyddogion Tyfu Canolbarth Cymru fynd ati i fonitro a rheoli cydgysylltu rhanbarthol TRIP ac adrodd ar yr agweddau hyn yn rheolaidd i'r Bartneriaeth.</p> <p>Roedd Aelodau'r Bartneriaeth yn cytuno â hyn.</p> <p><u>Diwyddiad Sbectwm Cenedlaethol, 18 Medi 2018</u></p>	

	<p>Cafwyd diweddariad gan MS ar y digwyddiad uchod a gefnogwyd gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi'i hysbysebu'n eang a'i fod wedi denu diddordeb o bedwar ban byd.</p> <p><u>Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop newydd</u></p> <p>Ar ôl i'r Bartneriaeth gytuno yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018 ar egwyddorion ei hymateb i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynglŷn â dogfen ddrafft i'w thrafod yn ymwneud â cheisio sicrhau cymorth ESG ar gyfer gwaith rhanbarthol yng Nghymru ac ar gyfer trefniadau gwaith mewn partneriaethau rhanbarthol, newidiwyd a thrafodwyd y cynnig drafft i ddiwygio rhaglenni yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ym mis Mai. Wedyn cytunwyd ar y cynnig trwy weithdrefn a chyflwyniad ysgrifenedig i'r Comisiwn fel rhan o'r Diwygiadau Rhaglenni ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.</p> <p>Nid yw'r Comisiwn wedi ymateb yn llawn eto, ond mae'r diwygiad i Raglen Dwyrain Cymru wedi'i chytuno. Mae'n briodol bod y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r cyfle i ddatblygu cynigion ar gyfer gwaith rhanbarthol. Mae trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal i ddatblygu cynnig ledled rhanbarth y Canolbarth a all gynnwys cynigion i ddatblygu effeithlonrwydd a gallu rhanddeiliaid i gyfrannu at allu'r rhanbarth i ddwyn ynghyd a darparu gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi'r agenda economaidd yn ehangach.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i MS am ei ddiweddariad i'r Bartneriaeth heddiw. Mae cynnwys yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
7.	<p>Derbyn Diweddariad Chwarter 3 Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith y Bartneriaeth</p>	
	<p>Cyflwynodd AE adroddiad Chwarter 3 y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith, ac atodir copi o'r adroddiad isod.</p> <p>Pwyntiau allweddol:-</p> <p>Cafodd Llywodraeth Cymru ei llongyfarch gan AE am y ffaith fod Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau wedi'i dyfarnu i Trafnidiaeth Cymru. Dechreuodd y fasnachfaint ar 14 Hydref 2018 a bydd yn para 15 mlynedd.</p> <p>Dywedodd AE fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid ar gyfer trafndiaeth ledled Cymru yn codi dros y 3 blynedd nesaf, a fydd yn cefnogi ac yn sail i amcanion strategol y sector trafndiaeth wrth symud ymlaen.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i AE am y diweddariad heddiw.</p>	

8.	Unrhyw Fater Arall	
	Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w trafod.	
9.	Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol	
	<ul style="list-style-type: none"> • Dydd Gwener, 11 Ionawr 2019 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys • Dydd Gwener, 12 Ebrill 2019 am 10.30am yn y Siambr, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion • Dydd Gwener, 12 Gorffennaf 2019 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys • Dydd Gwener, 11 Hydref 2019 am 10.30am yn y Siambr, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion • Dydd Gwener, 10 Ionawr 2020 am 10.30am yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys 	

Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cynghorydd Rosemarie Harris, Cadeirydd